

Rhifyn 46 Gwanwyn 2016

Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan
yr elusen genedlaethol dros chwarae



New Model Army Photography

Chwarae – pwysigrwydd risg



Cynnwys

2	Golygyddol gwadd	14-15	Risg a budd emosiynol
3-6	Newyddion	16	Gwnewch i ffwrdd â'r <i>bubble-wrap</i>
7	Cymru – Gwlad chwarae-gyfeillgar	17	Blwyddyn antur Cymru
8-9	Yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch	18	Cyfleoedd chwarae awyr agored
10-11	Chwarae a gwytnwch	19	Cylchoedd sy'n lleihau o hyd
12-13	Chwarae mentrus i bob plentyn	20-22	Datblygu'r gweithlu

Diolch yn fawr

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o www.chwaraecymru.org.uk

Eich dewis chi! Caniatáu i blant reoli risg

Mae'n sicr mai cyfrifoldeb darparwyr chwarae yw creu mannau lle caiff plant eu hannog i gymryd a rheoli risgiau wrth chwarae, boed hynny ym mharciau awdurdodau lleol, meysydd chwarae antur neu mewn ysgolion.

Yn ôl yn 2000, pan oedd y Play Safety Forum (PSF) yn ysgrifennu *Managing risk in play provision: A position statement*, bu'n rhaid i ni ddadlau bod risg yn bwysig a hynny gydag ymarferwyr, arolygwyr, adrannau parciau, swyddogion iechyd a diogelwch, gwleidyddion ac ambell weithiwr chwarae hyd yn oed!

Bryd hynny, bu'n rhaid i ni ddadlau o blaid gwerth risg a'i rôl o ran cynyddu gwytnwch, creadigedd, cystadleuaeth, cydweithrediad, hunanddarganfod, yn wir, pob agwedd ar chwarae rhydd. Diolch byth, mae'r dyddiau hynny wedi mynd. Bellach, anaml y clywaf anghytuno ynghylch pwysigrwydd risg wrth chwarae.

Felly pam nad ydym yn gweld mwy o gyfleoedd i blant chwarae'n greadigol? Nid cyfleoedd mentrus yn unig, ond rhai gwirioneddol greadigol. Pam nad yw chwarae yn treiddio i lecynnau cyhoeddus? Pob canolfan siopa neu barth cerddwyr? Pob coetir, rhos neu gomin? Heb sôn am barciau, meysydd chwarae antur neu ysgolion.

Y rhwystr pennaf, yn fy marn i, yw fod ar ddarparwyr, dylunwyr a gwneuthurwyr ofn y risgiau y byddai'n rhaid iddynt eu cymryd er mwyn gwireddu'r baradwys hon i blant. Dychmygwch glywed: 'Dad, gawn ni fynd i lawr i'r ganolfan siopa i chwarae yn y coed/siglenni/creigiau/gwifren wib dros y llaid/tywod/porfa!' yn hytrach nag 'O na! Dim siopa eto.'

Mae'r ateb i'w weld yn amharodrwydd ymarferwyr i dderbyn, gwerthfawrogi a chymryd y risgiau angenrheidiol er mwyn gwireddu'r freuddwyd hon, a risg broffesiynol yw hon yn bennaf. Y risg o wneud camgymeriad ac effaith hynny ar yrfa, y risg o wynebu achos llyd, o golli swydd. Ni allwn lai na chydymdeimlo â'r cyfyng-gyngor hwn, ond ein gwaith

Golygyddol Gwadd

ni yw annog a dwyn perswâd ar y rheiny sy'n gyfrifol i weithio dros y plant a'u hanghenion, yn hytrach na cheisio diogelu eu lles eu hunain.

Wrth ysgrifennu *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu* ac, yn fwy diweddar, wrth ysgrifennu canllawiau ynghylch defnyddio asesiad risg-budd, rhesom yr arfau a map o'r daith i ymarferwyr i'w helpu gyda'r dasg. Yn ogystal, buom yn gweithio gyda'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch (HSE) i wireddu ein nod o weld athroniaeth yr asesiad risg-budd a'r defnydd ohono yn cael ei dderbyn.

Bellach, mae angen i ni ddeall yn well pam fod cyfleoedd chwarae mentrus yn cael eu darparu mor anaml a sut y gallem gynnig cymorth i alluogi gwaith o'r fath. A ddylem ni ganolbwytio ar y bobl sy'n llunio polisïau a chyfarwyddwyr adrannau? Fel Cadeirydd y PSF byddwn yn croesawu unrhyw adborth o'r maes ynghylch y gefnogaeth ychwanegol y gellid ei chynnig, a beth yn rhagor y gallem ei wneud yn y dyfodol.

Robin Sutcliffe,
Cadeirydd y Play Safety Forum
www.playsafetyforum.org.uk



Newyddion

£6.3m o arian Cynnydd ar gyfer Llwyddiant



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Ewrop, yn buddsoddi gwerth £6.3 miliwn yn y gwaith o uwchsgilio'r gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae ar lefel 2, lefel 3 ac uwchben hynny.

Cymeradwywyd Cynnydd ar gyfer Llwyddiant yng Ngogledd-orllewin Cymru, Gorrlllewin Cymru a'r Cymoedd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ym mis Rhagfyr 2015. Mae Llywodraeth Cymru'n hyderus y bydd yn datblygu'n rhaglen Cymru gyfan a fydd yn cynnwys Dwyrain Cymru hefyd.

Prif ddiben Cynnydd ar gyfer Llwyddiant yw gwella ansawdd y ddarpariaeth a gyrchir mewn lleoliadau cofrestredig a gynhelir ac nas cynhelir, trwy wella lefelau'r cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae cydnabyddedig sydd gan weithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae.

Mae Cynnydd ar gyfer Llwyddiant yn cwmpasu dau llyn:

- Llyn 1 yw'r prif ffocws a'i fwriad yw ariannu ymarferwyr presennol sydd heb gymwysterau cydnabyddedig neu sydd â chymwysterau cydnabyddedig isel mewn gofal plant neu waith chwarae, i gyrraedd lefel 3 (bydd hyn yn cynnwys lefel 2 hefyd, lle bo hynny'n briodol).
- Bwriad llyn 2 yw cyllido cyfran lai o ymarferwyr presennol i gyflawni cymwysterau newydd ar lefel 4 i 6. Cyngor Gofal Cymru sy'n datblygu'r cymwysterau newydd a bwriedir iddynt fod yn barod o fis Medi 2016 ymlaen.

Bydd y cyllid sydd ar gael yn Llyn 1 ar gyfer darparu cymhwyster

dysgu seiliedig ar waith gan ddilyn y llwybr prentisiaeth yn unig. Ariannir Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) Gwaith Chwarae ar lefel 2 a 3 o'r fframwaith prentisiaeth.

Nid yw Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³) yn rhan o'r fframwaith prentisiaeth presennol felly, ar hyn o bryd, ac hyd y gellir ei ragweld, ni fydd modd cyllido'r cymhwyster hwn drwy'r rhaglen hon.

Rydym yn croesawu'r buddsoddiad hwn mewn cymwysterau gwaith chwarae, ond rydym yn sylweddoli, o'n profiad a'n gwybodaeth am y sector, fod y cyllid hwn yn gosod cyfyngiadau ar nifer y dysgwyr gwaith chwarae a fydd yn cael budd ohono.

Deallwn y bydd y manylion canlynol yn berthnasol i'r cyllid hwn pan gaiff ei gynnig yn ddiweddarach eleni:

Gwybodaeth am y rhaglen:

- Bydd y broses dendro ar gyfer darparwyr dysgu seiliedig ar waith sydd am gynnig i ddarparu cymwysterau fel rhan o'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant yn dechrau ym mis Mehefin 2016 a bydd ar gael i ddarparwyr sy'n rhan o Lot Arloesedd y fframwaith dysgu seiliedig ar waith presennol.
- Bydd modd i'r darparwyr dysgu seiliedig ar waith llwyddiannus gomisiynu hyfforddiant gan ddarparwyr hyfforddiant lleol.

- Bydd yn rhaid i'r dysgwyr fod yn weithwyr chwarae mewn cyflogaeth barhaol sy'n gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos.
- Bydd y cyllid ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio gyda phlant 0-7 oed.
- Bydd y cyllid ar gyfer dysgwyr 25 oed a throsodd.

Rydym yn croesawu adborth gan gyrrff gwaith chwarae, cyflogwyr ac ymarferwyr ynghylch yr heriau a'r cyfleoedd y mae'r rhaglen hon yn eu cynnig o ran uwchsgilio'r gweithlu.

Os hoffech rannu eich sylwadau a'ch profiadau, yn enwedig os yw hynny'n ymwneud â gofynion hyfforddi dysgwyr unigol, mae croeso ichi anfon neges e-bost at gweithlu@chwaraecymru.org.uk a byddwn yn crynhoi'r ymatebion i'w rhannu â swyddogion arweiniol Llywodraeth Cymru.

www.llyw.cymru

**Diwrnod
Chwarae**

**Diwrnod
Chwarae 2016**

Dydd Mercher 3 Awst
www.playday.org.uk

Fersiwn newydd – pecyn cymorth cymunedol

Cyhoeddwyd y pecyn cymorth cymunedol *Datblygu a Rheoli Mannau Chwarae* gwreiddiol yn 2012, erbyn hyn mae wedi ei ddiweddarau i gynnwys y wybodaeth, ddeddfwriaeth a'r adnoddau diweddaraf.

Mae wedi ei ddylunio ar gyfer unrhyw un sy'n gyfrifol am reoli neu ddatblygu man chwarae mewn cymuned. Gallai fod yn gyngor cymuned, yn gymdeithas chwarae leol neu'n grŵp o drigolion.

Bwriedir i'r pecyn cymorth fod yn ffynhonnell cefnogaeth a chyfeirio unigol ar gyfer grwpiau cymunedol, fel y gallant lywio eu ffordd trwy'r heriau o reoli neu ddatblygu man chwarae.

Lawrlwythwch am ddim ar:
[www.chwaraecymru.org.uk/
cym/pecyncymorthcymunedol](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthcymunedol)



Lle chwarae Achubwyr Lle Gwag

Prosiect a gyllidir gan Gronfa'r Loteri Fawr i gefnogi tenantiaid pedair cymdeithas dai yn Ne Cymru i weddnewid manau agored yn eu cymunedau yw Achubwyr Lle Gwag. Trwy'r prosiect, mae Chwarae Cymru wedi cefnogi grŵp sy'n cael ei arwain gan denantiaid i ddatblygu lle chwarae naturiol yn y Felin Wylt, Pen-y-bont ar Ogwr.

**Dyweddodd Rachel Lovell,
Swyddog Prosiectau i
Gymdeithas Dai V2C:**

'Fe wnaethon ni gynnal nifer o weithdai dros yr haf i ysbrydoli tenantiaid a chasglu eu syniadau ynghylch gwneud gwell defnydd o fannau yn eu cymunedau oedd wedi'u hesgeuluso ac nad oedd neb eu heisiau. Roedd gweithdy chwarae naturiol Chwarae Cymru wedi ysbrydoli nifer o denantiaid i ddychmygu lle diogel, mwy deniadol a llawn hwyl y gallai pobl o bob oed ei fwynhau. Roedd gan Sarah Hay [tenant ac aelod o'r bwrdd] syniadau clir ynghylch sut gellid gwella ei hystâd hi a chyda chymorth Chwarae Cymru, lluniodd ddyluniadau cyffrous a chynllun prosiect.'

Rhoddyd y cynlluniau hynny ar waith bellach ac agorwyd y lle chwarae yn swyddogol ym mis Chwefror 2016.

<http://spacesaviours.co.uk>

Aelod newydd o'r tîm

Croeso i'n Swyddog Cyllid newydd, Ruth O'Donoghue.



Mae Ruth yn gyfrifol am y systemau ariannol a chyfrifo, gan weithio rhan amser yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Cyn ymuno â'n tîm ni, gweithiodd i elusen sy'n darparu llety â chymorth a gwasanaethau cynnal.

Wedi wyth mlynedd fel ein Rheolwraig Cyllid, gadawodd Jacky Jenkins ym mis Tachwedd 2015. Dymunwn yn dda i Jacky yn ei chartref newydd yng Ngorllewin Cymru.

www.chwaraecymru.org.uk/cym/tim

Cyfryngau Cymdeithasol



www.facebook.com/ChwaraeCymru



www.twitter.com/ChwaraeCymru

Beth nesaf i'r Comisiynydd Plant?



Mannau lleol diogel gyda mwy o leoedd i chwarae; mynd i'r afael â bwllis; cefnogaeth fwy prydlon ar faterion iechyd meddwl a llesiant emosiynol oedd rhai o'r prif flaenoriaethau gafodd eu lleisio gan fwy na 7,000 o blant a phobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn Ymgynghoriad Beth Nesa | What Next? Comisiynydd Plant Cymru – un o'r mwyaf o'i fath yng Nghymru.

Nod yr ymgynghoriad oedd ymgynghori mor eang â phosibl â phlant a phobl ifanc (3-18+ oed) yng Nghymru, yn ogystal â gweld persbectif rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

'Mwy o leoedd i chwarae' oedd y flaenoriaeth uchaf (49%) i bron hanner y plant tair i saith mlwydd oed – gan adlewyrchu pwysigrwydd chwarae i blant.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau a fydd yn llywio i blaenoriaethau yn y

dyfodol, dywedodd Sally Holland:

'Os wyf fi i fod yn bencampwr effeithiol yn fy rôl fel Comisiynydd Plant Cymru, mae'n hanfodol mod i'n cael gwybod yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc beth maen nhw'n meddwl dylwn i fod yn codi llais amdano ar eu rhan. Mae barn bwysig gan blant, ac mae rhaid gwrando arny'n nhw.'

Gan dynnu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a ffynonellau eraill o dystiolaeth berthnasol, bydd

blaenoriaethau Sally Holland ar gyfer y dair blynedd nesaf yn cynnwys chwarae a hamdden. Erbyn 2019, mae'r Comisiynydd yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at ddarparu gwell mynediad i weithgareddau chwarae, diwylliant a hamdden gan blant, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tloidi a phlant anabl.

www.complantcymru.org.uk/cy/beth-nesa

Adroddiad newydd yn datgelu bod plant anabl yng Nghymru yn colli cyfleoedd i chwarae



Mae adroddiad gan yr elusen genedlaethol byddar-ddall, Sense Cymru, yn datgelu'r cyfyngiadau difrifol y mae plant anabl yn eu hwynebu o ran cael mynediad i chwarae.

Mae'r adroddiad yn nodi methiannau sy'n achosi i blant anabl gollu cyfleoedd chwarae sy'n hanfodol i'w datblygiad emosiynol, cymdeithasol a chorfforol. Yn yr adroddiad tynnir sylw at rwystrau sy'n cynnwys 'diffyg sylw gan y llywodraeth, cyllid annigonol yn lleol ac agweddau negyddol at blant anabl a'u teuluoedd'.

Geilw'r adroddiad am weithredu ar fyrder i ymdrin â'r anghydraddoldebau hyn ac i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni'u Dyletswyddau i Gyflawni'u Dyletswyddau Digonolrwydd Chwarae ar gyfer

plant ag anghenion lluosog, er mwyn cyflawni nod Llywodraeth Cymru, sef bod Cymru'n wlad sy'n chwarae-gyfeillgar.

Prif ganfyddiadau'r adroddiad:

- Nid yw plant ag anghenion lluosog ond yn mynd i ddau neu dri o'r pum sesiwn y mae hawl ganddynt eu derbyn o dan y Cynllun Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant a hynny oherwydd diffyg cyllid i gefnogi eu cynnwys mewn lleoliadau blynnyddoedd cynnar.

- Teimlai 92% o'r rhieni nad oedd eu plant yn cael yr un cyfleoedd i chwarae â'u cyfoedion heb anabledau, a dywedodd 81% o'r rhieni iddynt gael anhawster cyrchu grwpiau chwarae prif ffrwd a chyfleoedd chwarae lleol.
- Cafodd 51% o blant eu troi i ffrwd o leoliadau chwarae gan ddarparwyr, a oedd yn methu â chyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gellir lawrlwytho canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad llawn o: www.sense.org.uk/play

Newidiadau i'r gyfraith gofal plant

Daw newidiadau i'r gyfraith gofal plant yng Nghymru i rym ym mis Ebrill 2016. Fel rheoleiddiwr, mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) am sicrhau bod canlyniadau datblygiad a lles plant yn ganolog i'w profiadau.

O 1 Ebrill ymlaen bydd AGGCC yn rheoleiddio darpariaeth chwarae, cynlluniau gwyliau, gwarchodwyr plant a darpariaeth gofal plant ar gyfer plant dan 12 oed ac am fwy na dwy awr y dydd.

Sut bydd hyn yn effeithio arnoch chi?

Bydd rhai cymarebau staffio a bennwyd yn flaenorol yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) yn newid o fis Ebrill ymlaen. Bydd angen ichi sicrhau bod y gwasanaeth rydych chi'n ei ddarparu yn ystyried anghenion lles plant 8 i 12 oed. Bydd y SGC yn newid er mwyn rhoi ystyriaeth i anghenion plant hŷn; a bydd AGGCC yn newid sut mae'n arolygu gofal plant a chwarae.

Bydd y rheoliadau'n eithrio rhai gwasanaethau ieuencid (rhai sy'n benodol ar gyfer plant sydd wedi cyrraedd 11 oed) rhag gorfod cofrestru.

Fframwaith arolygu gofal plant a chwarae

O fis Ebrill 2016 ymlaen bydd fframwaith arolygu AGGCC yn rhoi mwy o bwyslais ar wella canlyniadau datblygiad a llesiant plant.

Beth mae AGGCC yn ei wneud?

Os ydych wedi cofrestru gydag AGGCC eisoes, dylech fod wedi derbyn llythyr ynghylch y newidiadau y bydd angen i chi eu gwneud. Bydd gennych 28 niwrnod o ddyddiad y llythyr i ddatgan p'un a ydych yn bwriadu gwneud amrywiad i'ch gwasanaeth mewn perthynas

â'r newidiadau hyn.

Os nad ydych wedi cofrestru gydag AGGCC eisoes, ond rydych yn darparu gofal plant neu ddarpariaeth chwarae ar gyfer plant rhwng 8 a 12 oed am fwy na dwy awr y dydd, bydd angen ichi gofrestru erbyn 1 Ebrill.

Sut mae paratoui

Mae angen ichi wneud y canlynol er mwyn sicrhau eich bod yn barod am y newidiadau sy'n dod. Bydd arnoch angen y canlynol:

- tystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- yswiriant dilys
- tystysgrif cymorth cyntaf ddilys o fis Ebrill 2016 ymlaen

sy'n cwmpasu ystod oedran lawn y plant y byddwch yn darparu gofal a reoleiddir ar eu cyfer. Dylech ddiweddarau'r canlynol:

- eich datganiad o ddiben
- eich polisiâu rheoli/amddiffyn plant
- eich gweithdrefnau cwyno.

Yn ogystal, dylech ddarllen y fersiwn ddiwygiedig o'r SGC ar gyfer Gofal Plant a'r rheoliadau a ddiweddarwyd a sicrhau eich bod yn cydymffurfio â nhw.

Gall AGGCC ofyn ichi ddarparu gwybodaeth ynghylch eich cynllun llawr/y lle sydd gennych mewn perthynas ag oedranau'r plant rydych yn gofalu amdanynt, ond ni fydd yn gofyn am dystiolaeth o statws cynllunio eich adeilad, ac ni fydd yn ofynnol ychwaith i chi ddatgan eich bod wedi ymgynghori â'ch Awdurdod Cynllunio Lleol.



Newidiadau i gyfraith gofal plant

Os ydych **wedi cofrestru gyda ni** i ddarparu gofal neu chwarae i blant, mae'r cofrestriad yma yn berthnasol i blant hyd at 8 mlwydd oed.



1af 2016

Bydd y terfyn oedran uwch yn cynyddu i **12 mlwydd oed.**

Byddwn yn:

- anfon llythrau yn fis Chwefror i bob darparwyr gofal a chwarae plant sydd wedi cofrestru gyda ni.**
- cymryd camau yn fis Chwefror i ymateb i'n llythyr.**
- Darllenwch y rheoliadau wedi'u diweddarau.**
- Darllenwch newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.**
- Darllenwch y cwestiynau cyffredinol ar ein gwefan.**

Cysylltwch â ni yn y Gymraeg neu Saesneg

0300 7900 126
 @aggcc@cymru.gsi.gov.uk
 @arolygu_gofal

AGGCC CSSIW
 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
 Child Protection and Social Services Regulatory Wales

Diolch yn fawr

Imelda Richardson, Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

'Diolch yn fawr i chi am eich gwaith yn amddiffyn a meithrin y plant rydych chi'n darparu gofal a chyfleoedd chwarae ar eu cyfer. Mae darparu gwasanaeth o ansawdd a gwybod beth yw beth o ran y newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn gallu ymddangos yn dasg hynod o anodd ar adegau ac rwy'n ymwybodol y gall newid achosi ansicrwydd weithiau. Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen a fydd yn sicrhau cysondeb ac ansawdd gofal plant a chwarae yng Nghymru ac mae'n sicr y bydd yn rhoi mwy o hyder i rieni yn y sector.'

Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar

Ymgyrch gan Chwarae Cymru yw Cymru - Gwlad Chwarae-Gyfeillgar, sy'n helpu i ffurfio rhwydwaith sy'n cefnogi chwarae ledled Cymru. Rhowch wybod i ni beth sy'n digwydd yn lleol naill ai i warchod neu i wahardd hawl plant i chwarae trwy fynd i'r dudalen Facebook: on.fb.me/gwladchwaraegyfeillgar



Sara Meyrick a Zoe Proctor yn sôn wrthyn ni am ddarparu chwarae awyr agored anstrwythuredig yn eu grŵp cymunedol awyr agored Wild Tots yn Sir Fynwy.

Chwarae gwyllt, sy'n annog plant ac oedolion i fod yn egniol yn yr awyr agored ym mhob tywydd ac ym mhob tymor, sydd wrth wraidd ein hethos yn Wild Tots.

Rydyn ni'n canolbwyntio ar ddechrau'n ifanc, gan integreiddio'r gwahanol genedlaethau i'n hethos awyr agored, anstrwythuredig. Mae Wild Tots yn ymfalchïo mewn llenwi cae â mamau, tadau, neiniau, teidiau, nanis, modrybedd, ewythrod, plant bach, brodyr a chwirydd hŷn, babanod a bwmps!

Does dim canlyniadau na thema i'r sesiynau ac mae hynny'n creu cyfleoedd di-ben-draw ar gyfer

chwarae anstrwythuredig, dan arweiniad y plentyn, i archwilio a darganfod yr amgylchedd naturiol. Yn hytrach na theganau traddodiadol mae gennym rannau rhydd ac mae ymweliad â storfa sgrap lleol wedi ysgogi hwyll diderfyn, dyfeisgarwch, cydweithredu a datrys problemau gan y plant a'r oedolion fel ei gilydd.

Mae cyfrifoldeb rhieni yn hollbwysig. Ond ein hethos yn Wild Tots yw bod pawb yn helpu ei gilydd ac yn rhannu cyfrifoldeb ar y cyd. Mae'r oedolion a'r plant i gyd yn bwrw iddi i wneud y sesiynau yn rhwydd ac yn groesawus i bawb sy'n cymryd rhan.

Yn Wild Tots, credwn mewn darparu profiad awyr agored cadarnhaol ar gyfer plant ac oedolion ac rydyn ni'n arddel y dywediad enwog 'does dim tywydd gwael, dim ond



dillad gwael' gan geisio helpu plant ac oedolion a rhoi gwybodaeth iddynt am sut i wisgo'n addas ar gyfer y tywydd. Mae Wild Tots yn mynd ati'n ymarferol i annog a hyrwyddo pa mor bwysig ydyw bod plant ac oedolion yn deall eu diogelwch yn hyderus gyda chymorth a chefnogaeth cyfoedion ac Arweinydd Gwyllt os bydd angen.

Mae llwyddiant y model wedi ein hysbrydoli i sefydlu menter gymdeithasol er mwyn galluogi eraill (e.e. rhieni, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) i greu eu grwpiau Wild Tots eu hunain a fydd yn parhau â'n hethos o fod yn yr awyr agored, yn anstrwythuredig, yn fforddiadwy ac yn gynhwysol.

'Cawson ni ddwy awr bleserus iawn, a digon prin, yn gwyllo ein plant yn chwarae yn eich cegin fwd yn Wild Tots. Roedd hon yn garreg filltir bwysig iawn i ni ... yn y tair blynedd a hanner ers geni Noah, dydyn ni erioed wedi'i weld wedi ymlacio gymaint, yn canolbwyntio gymaint ac wedi ymgolli mewn gweithgaredd am gyfnod mor hir. A'r syndod mawr i ni oedd gweld ymateb ein merch 11 oed i'r amgylchedd hefyd ... Roedd hi wedi dwlu arno lawn cymaint â'i brawd ac roedd gweld y ddau ohonyn nhw'n mwynhau chwarae gyda'i gilydd am gyhyd yn bleser pur ac yn brofiad cwbl newydd i ni!'
Teulu Noah

Sicrhau bod iechyd a diogelwch yn 'chwarae plant'

Judith Hackitt CBE, Cadeirydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn dweud wrthyn ni sut mae defnyddio iechyd a diogelwch i alluogi chwarae heriol, yn hytrach na'i atal.

Rydw i'n credu'n angerddol y dylai plant gael caniatâd, ac anogaeth, i gymryd rhan mewn chwarae heriol, mentrus, oherwydd bod hynny, heblaw am yr elfennau amlwg o fwynhad, yn cynnwys llawer o fanteision a fydd yn helpu i gynhyrchu oedolion cyflawn.

Chwarae heriol

Mae llawer o ysgolion a lleoliadau chwarae eisoes yn hwyluso cyfleoedd chwarae heriol i blant, ac rydyn ni eisiau i eraill fod yn ddigon hyderus i ddilyn eu harweiniad. Rydyn ni am i chwarae heriol fod yn norm, ac nid ar gyfer nifer bach yn unig.

Mae chwarae heriol yn gyfle i blant ddechrau ymdopi â methiant, ofn neu ddiffyg gallu, a dysgu o'r profiadau hynny. Mae'n golygu bod modd iddyn nhw deimlo boddhad yn sgîl rhoi cynnig arall arni a llwyddo. Ni ddylid diystyru'r manteision o ran mireinio sgiliau gwneud penderfyniadau a gwaith tîm, sy'n sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd.

Nid yw HSE byth yn ceisio gwahardd gweithgareddau ar y sail bod risg ynghlwm wrthyn nhw i'r rhai sy'n cymryd rhan.

Rydyn ni'n rhoi sylw i'r manteision ehangach o ran iechyd corfforol a meddyliol ac i'r gymdeithas gyfan. Dyna'n union sut dylen ni edrych ar chwarae plant.

Dyw lapio plant mewn gwllân cotwm yn cyflawni dim. Gall plant sy'n tyfu i fyny heb fedru rhagweld a delio gyda risg fod yn brin o hunanhyder, ac yn llai parod i wneud penderfyniadau pan fyddan nhw'n oedolion. Gall fod canlyniadau negyddol i chwarae sy'n cyfyngu'n ormodol arnynt. Mae rhai plant yn etifeddu ofnau diangen eu rhieni, a gallant ofni cymryd rhan.



Ym mhen arall y sbectwm mae'r plant hynny fydd yn mynd i chwilio am chwarae mentrus os nad yw'n cael ei ddarparu ar eu cyfer. Os nad yw chwarae'n rhoi digon o symbyliad, bydd plant sydd am gael gwefr yn addasu'r chwarae i sicrhau hynny. Gallai hynny olygu eu bod yn cymryd risgiau diangen mewn amgylcheddau peryglus. Mae pawb ohonon ni'n cofio'r plentyn gorfentrus yn yr ysgol. Yr un oedd bob amser yn dringo'n uwch neu'n ymfrostio ei fod yn chwarae ar y lein reilffordd. Mae gweithgareddau felly yn aml yn arwain at anafiadau difrifol neu angheuol. Gwaetha'r modd, mae HSE yn dal i ofod delio gyda sefyllfaoedd lle mae plant wedi mynd i mewn i safleoedd adeiladu neu chwareli, gyda chanlyniadau torcalonnus i'w teuluoedd a'r rhai sy'n gorfod delio gyda'r canlyniadau.

Bydd rhai plant bob amser yn profi'r ffiniau, ond yn gyffredinol, pan fydd gan blant rywle sy'n cynnig cyfleoedd chwarae heriol, mae llai o demtasiwn i geisio chwarae mewn mannau cwbl anaddas. Os ydyn ni i gyd yn cytuno bod chwarae heriol yn dda i blant, ac yn cydnabod bod anfanteision amlwg i atal hynny, pam mae canfyddiad yn bodoli weithiau bod trefnu gweithgareddau o'r fath yn dasg sy'n ein digalonni, a heb fod yn werth chweil?

Nid y gyfraith sy'n llesteirio hyn. Dros 40 mlynedd wedi creu'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, mae'n dal yn addas at y diben, yn y bôn. Ei bwriad yw sicrhau bod modd cynnal gweithgareddau, nid eu rhwystro. Mae hynny'n cynnwys chwarae plant.

Bwriad y datganiad lefel uchel *Chwarae a Hamdden Plant - Hynwyddo agwedd gytbwys tuag at risg* (2012) yw rhoi sicrwydd i addysgwyr, darparwyr chwarae a rhieni na ddylai iechyd a diogelwch weithredu fel rhwystr wrth ddarparu chwarae heriol. Yn groes i'r hyn a ddarllenwch yn y wasg o bosib, dyw HSE erioed wedi bwriadu dileu pob risg. Rydyn ni'n sylweddoli bod dod i gysylltiad â pheth risg yn

anochel yng nghyd-destun llawer o weithgareddau megis chwarae plant.

Beth sy'n dod i'ch meddwl pan fyddwch chi'n clywed y geiriau iechyd a diogelwch? Mynydd o waith papur? Rhwystrau? Penderfyniadau anodd? Ddim yn werth yr ymdrech? Mae'n bryd edrych eto ar unrhyw ragdybiaethau.

Os edrychwn ni ar asesu risg – rhywbeth y mae pobl yn dychryn rhagddo – does dim rhaid iddo fod yn faich. Dylid dechrau drwy ofyn, 'Beth rydyn ni eisiau gwneud?' a 'Beth yw'r manteision?', ac yna, 'Sut gallwn ni sicrhau bod hwn yn brofiad diogel, llawn mwynhad i bawb?'

Mae asesu risg yn fater o alluogi, nid atal. Os ydych chi'n cynllunio gweithgaredd heriol ac yn meddwl bod dim modd gwneud rhywbeth 'oherwydd iechyd a diogelwch', meddylwch eto, os gwelwch yn dda, oherwydd mae'n debygol iawn bod modd ei wneud!

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae HSE wedi bod yn llwyddiannus iawn yn herio ac yn chwalu mythau trwy'r panel Mythbusters Challenge; rydyn ni wedi clywed am wahardd rhaffau sgipio, balwnau a choncrys, a hyd yn oed sanau â ffril, i gyd wedi'u camadnabod fel materion iechyd a diogelwch.

Ond beth os bydd trychineb ar ôl i rywbeth fynd o'i le? Mae disgwyl i ddarparwyr chwarae ddelio gyda risg yn gyfrifol ac yn gall. Os aiff pethau o chwith, cyhyd â bod camau synhwyrol a chymesur wedi cael eu cymryd, mae achos o dorri cyfraith iechyd a diogelwch yn annhebygol iawn, ac ni fyddai'n debygol y byddai erlyniad gan HSE o fudd i'r cyhoedd.

Os bydd anaf difrifol neu angheuol yn digwydd, bydd HSE neu'r awdurdod lleol yn ymchwilio fel arfer. Yn achos damweiniau angheuol, bydd yr heddlu'n ymwneud â'r sefyllfa hefyd. Mae HSE wedi cychwyn erlyniadau mewn achosion prin lle roedd tystiolaeth o fyrbwylldra neu fethiant amlwg i ddilyn rhagofalon synhwyrol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw darparwyr chwarae yn dehongli hynny yn nhermau dileu hyd yn oed y risgiau mwyaf dibwys er mwyn osgoi cael eu herlyn gan HSE.

Allwn ni ddim rhagweld bob amser beth bydd pobl yn ei wneud. Gall oedolion (hyd yn oed rhieni) weithiau roi eu plant mewn perygl yn anfwriadol. All darparwyr chwarae ddim cael eu hystyried yn gyfrifol am y rhai sy'n dewis ymddwyn felly.

Mae rhieni mor amrywiol â'u plant. Mae rhai'n amharod i gymryd risg, tra bod eraill yn awyddus i'w plant brofi gweithgareddau sy'n rhoi gwefr. Yr her yw ceisio cysoni'r gwahaniaethau hyn. Wrth drefnu cyfleoedd, y peth allweddol yw sicrhau bod y rhieni'n cael digon o wybodaeth i'w helpu i wneud dewis gwybodus. Yn y pen draw, os nad yw rhiant am i'w plentyn gymryd rhan mewn chwarae heriol, nhw sydd i benderfynu. Allwn ni ond esbonio'r risgiau a'r manteision. Gallai rhieni a gofalwyr sydd â digon o wybodaeth fod yn llai tebygol o gymryd camau cyfreithiol sifil os digwydd mân anafiadau.

Allwn ni fyth warantu imiwnedd rhag camau sifil neu droseddol, ond mae cynllunio ac asesu gofalus yn golygu ei bod hi'n llai tebygol, ac yn haws amddiffyn penderfyniadau.

Mae darparwyr chwarae yn cael eu cefnogi a'u hannog gan HSE wrth iddynt helpu i baratoi plant ar gyfer bywydau iach a diogel.

www.hse.gov.uk



Chwarae a gwytnwch

Angie Hart, Athro Iechyd y Plentyn, y Teulu a'r Gymuned ym Mhrifysgol Brighton, yn edrych ar sut mae chwarae a chyfleoedd chwarae mentrus yn benodol, yn cyfrannu at ddatblygu gwytnwch plant.



Mae ar bob plentyn a pherson ifanc angen ac eisiau cymryd risgiau, yn gorfforol ac yn emosiynol wrth iddynt dyfu i fyny, waeth beth fo'u diwylliant, eu cefndir, neu'r cyfyngiadau corfforol sydd arnynt.

Mae chwarae'n cynnwys nodweddion penodol sy'n caniatáu i blant roi cynnig ar strategaethau newydd a datrys heriau, a hynny'n gymharol ddiogel. Mae chwarae'n hybu hyblygrwydd corfforol a hyblygrwydd emosiynol trwy ymarfer ymddygiadau a sefyllfaoedd newydd ac annisgwyl'.

Mae manteision cymryd risgiau'n cynnwys: ehangu sgiliau, datblygu galluoedd corfforol ac emosiynol, herio ein hunain mewn ffyrdd newydd a chael profiad uniongyrchol o ganlyniadau ein gweithredoedd

gan gynnwys dysgu sut i ddelio â methiant. Mae bod yn ddewr a gorchfygu ofn yn rhywbeth sy'n bwysig iawn i blant ac yn arwydd o dwf.

Sut mae chwarae'n cyfrannu at wytwnwch

Yn aml, ystyrir gwytnwch fel y ddawn i 'ymdopi ag ergydion bywyd'. Gall rhai plant godi uwchlaw adfyd a gwrthsefyll risgiau, straen a heriau difrifol heb fawr o gymorth. I eraill, mae hyn yn anoddach a bydd angen cymorth arnynt i wneud hynny. Felly, mae gwytnwch yn gysyniad sy'n cynnwys nid yn unig nodweddion seicolegol y plentyn ond hefyd deulu'r plentyn, ei rwydweithiau cymdeithasol, a'i gymdogaeth. Gwytnwch yw ein hymateb i brofiadau bywyd – y rhai da a'r rhai hynod o heriol sy'n peri pryder – yn ogystal â sut byddwn ni'n cael hyd i eraill i'n helpu.

Mae chwarae plant yn 'darparu ymddygiad sylfaenol ar gyfer datblygu gwytnwch a thrwy hynny, mae'n cyfrannu'n sylweddol at les plant'. Mae hyn yn awgrymu bod chwarae'n cyfrannu at ddatblygu gwytnwch trwy nifer o systemau sy'n cydberthyn, yn cynnwys:

- Rheoli emosiynau
- Pleser a mwynhad yn sgîl hybu teimladau cadarnhaol
- Y system ymateb i straen a'r gallu i ymateb i ansicrwydd
- Creadigedd a'r gallu i greu cysylltiadau newydd a gwahanol
- Dysgu
- Ymlyniad wrth bobl a lleoedd
- Datrys problemau.

Mae chwarae'n fecanwaith allweddol ar gyfer datblygu gwytnwch a delio â straen a phryder. Mae'n darparu strategaethau effeithlon ar gyfer ymdopi ag ansicrwydd ac mae'n cyfrannu at iechyd meddwl a chorfforol da.

References

- i Lester, S. a Russell, W. (2008) *Play for a Change: Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*. Llundain: Play England
- ii Masten, A ac Obradovic, J (2006) 'Competence and resilience in Development' *Annals of the New York Academy of Science*, 1094: 13-27. Dyfynnwyd yn *Play for a Change*
- iii Gordon, G. and Esbjorn-Hargens, S. (2007) 'Are we having fun yet? An exploration of the transformative power of play', *Journal of Humanistic Psychology*, 47: 198 - 222. Dyfynnwyd yn *Play for a Change*
- iv How to use the resilience framework – Young Minds www.youngminds.org.uk/training_services/academic_resilience/what_is_academic_resilience/academic_resilience_framework

Yr angen am ddarparu cyfleoedd mentrus

Bydd cyfleoedd i ddod ar draws ansicrwydd a delio â pheryglon posibl yn helpu plant i ddatblygu gwytnwch. Byddant yn dod yn fwy hyderus yn eu hagwedd at fywyd a gallant ddelio'n well â beth bynnag ddaw i'w rhan yn ein byd ansicr. Os cânt eu hamddiffyn rhag pob dim a all fod yn niweidiol yn emosiynol neu'n gorfforol, bydd llai o gyfle iddynt ddatblygu gwytnwch. Felly nid lapio plant mewn gwlan cotwm yw'r ateb. Yn gyffredinol, rydyn ni'n ceisio cefnogi plant i ddatblygu i fod yn bobl gadarn sy'n gallu sefyll ar eu traed eu hunan a delio ag ergydion bywyd. Wrth gwrs, bydd yr ergydion a ddaw i ran rhai plant yn ormod iddynt ac felly dydw i ddim yn awgrymu bod popeth yn dderbyniol yn y cyd-destun yma!

Mae ar blant angen cymryd risgiau a byddant hefyd yn chwilio'n fwiadol am gyfleoedd i gymryd risg mewn amgylchedd sicr a chymharol ddiogel. 'Mae cymryd risg wrth chwarae yn gyfle i blant "fod allan o reolaeth o dan eu rheolaeth eu hun, a thrwy hynny brofi risg a meistrolaeth ar yr un pryd"'.¹

Mae cymryd risg yn rhan naturiol o dyfu i fyny – mae'n fodd i ddysgu sut i oroesi. Os na fyddwn ni'n cyflwyno cyfleoedd i brofi risg mewn lleoliad chwarae, bydd plant yn chwilio am y wefr a'r ymdeimlad o gyflawniad a ddaw yn sgîl goresgyn ofnau mewn mannau llai priodol, lle na fydd pobl brofiadol i gadw llygad arnynt. Gallant ymarfer cymryd risgiau yn niogelwch cymharol eu lle chwarae.

Mae edrych ar bethau o safbwynt gwytnwch yn cynnwys canfod ffyrdd o godi uwchlaw anfanteision plant unigol a hefyd i geisio dileu'r anfanteision hynny ar gyfer plant difreintiedig yn fwy cyffredinol. Mae gan therapyddion chwarae rôl bwysig i'w chwarae wrth gynorthwyo plant i ddychmygu, prosesu ac ymarfer 'camau gwydn' y gallant eu cymryd drostynt eu hunain. Fel rhan o'u cyfrifoldebau a'u rhwydweithio proffesiynol ehangach, gall therapyddion chwarae eiriol dros newid ar ran plant difreintiedig yn gyffredinol.

Y Fframwaith Gwytnwch

Mae Boingboing wedi cynhyrchu Fframwaith Gwytnwch sy'n 'crynhoi casgliad o syniadau ac arferion sy'n hyrwyddo gwytnwch', wedi'i seilio ar ddatblygiad ymchwil ac ymarfer o'r enw Therapi Gwydn². Gallai'r fframwaith gwytnwch fod yn arf defnyddiol i therapyddion chwarae i'w helpu i strwythuro profiadau chwarae penodol ar gyfer plant.

Trwy chwarae gall plant wneud ffrindiau a chymysgu â phlant eraill, chwerthin a datblygu sgiliau newydd – sydd oll yn cyfrannu at ddatblygu gwytnwch.

www.boingboing.org.uk

Y Model ABC ar gyfer rheoli risg deinamig

Bu Chwarae Cymru, mewn partneriaeth â Simon Bazley (Playful Futures), yn gweithio gyda Thîm Datblygu Chwarae Wrecsam i ddatblygu dull asesu risg-budd ar sail ymddygiad. Yn sgîl gwaith pellach gan y tîm datblygu chwarae a staff maes chwarae antur The Land, datblygwyd canllawiau, sef y *Model ABC ar gyfer rheoli risg deinamig yng nghyswllt ymddygiad chwarae cyffredin a all fod yn beryglus*.

Mae'r dull hwn yn asesiad risg-budd manwl sy'n ystyried ymddygiad chwarae sy'n gyffredin ond sy'n gallu bod yn beryglus gan blant yn ystod sesiynau chwarae wedi'u staffio. Y bwriad yw ei fod yn cefnogi asesiad risg deinamig gan ymarferwyr unigol wrth weithio gyda phlant sy'n chwarae. Mae'n cydnabod, er y gall ymddygiad chwarae plant fod yn gymhleth a chymryd sawl ffurf wahanol, ei bod hi'n debygol y bydd y ffyrdd y gallai niwed difrifol ddigwydd yn debyg ar draws gwahanol fathau o ymddygiad.

Er enghraifft, mae'n debygol y bydd y ffyrdd y gallai anaf ddigwydd, a'r ffactorau y mae angen i ymarferwyr roi ystyriaeth iddynt, yn debyg p'un a yw plant yn dringo coeden, yn siglo ar raff neu'n llithro i lawr llethr fwdlyd. Felly, lluniwyd un asesiad risg-budd ar gyfer ystod eang o ymddygiad yn hytrach na llawer o asesiadau ar sail gweithgaredd sydd, ar lefel ymarferol, yn dyblygu ei gilydd.

Nod y model yw cefnogi asesiad risg deinamig yr ymarferydd trwy nodi'r canlynol:

Ayw gweithgaredd yn debygol o achosi niwed?

Beth, yn ymddygiad y plant, all achosi iddynt fod yn llai ymwybodol ac yn llai abl i reoli risg drostynt eu hunain a/neu dros eraill o'u cwmpas

Cyd-destun a'r ffactorau penodol a all gynyddu tebygolrwydd a difrifoldeb unrhyw niwed posibl.

Croesawyd y dull gan weithwyr chwarae yn ardal Wrecsam. Bydd Chwarae Cymru'n gweithio gyda thîm datblygu chwarae Wrecsam i hyrwyddo'r model ABC i weithwyr chwarae eraill yng Nghymru ac i eraill sy'n cefnogi chwarae plant, megis lleoliadau gofal plant, y blynyddoedd cynnar ac ysgolion.

Chwarae mentrus i bob plentyn

Mae Ally John, hyfforddwraig ac eiriolwr cydraddoldeb, cynhwysiad a chwarae yn dweud wrthym pam mae ar bob plentyn angen cymryd risgiau fel rhan o'u chwarae; ac mae'n rhannu ei phrofiadau o gymryd risgiau pan oedd hi'n blentyn.

Mae gormod o egni a sylw'n cael eu rhoi i risg corfforol. Mae ffurflenni asesu risg yn methu â chydabod bod pob plentyn a pherson ifanc yn wynebu mwy na risg corfforol yn unig pan fyddant yn chwarae. Fel oedolion cyfrifol, mae cyfrifoldeb arnom i gadw plant yn ddiogel ond mae hyn yn cynnwys cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i reoli risg drostynt eu hunain, nid dim ond risg corfforol ond hefyd y risgiau deallusol, cymdeithasol ac emosiynol y maent yn agored iddynt.

Gallwn ni i gyd gofio'r adegau yn ein plentyndod pan oeddem yn ansicr ynghylch sut i wneud rhywbeth neu'n amau a allem ei wneud, yn ofni y gallem wneud ffwl o'n hunain o flaen ein cyfoedion neu deimlo'n ddig neu wedi'n cynhyrfu oherwydd nad oedd ein ffrindiau wedi'n cynnwys mewn rhyw weithgaredd. Ond fe ddysgon ni sut i ddelio â'r risgiau ac weithiau, oedd, roedd yna boen gorfforol, emosiynol ac fe wnaethon ni'r penderfyniadau anghywir ond fe ddysgon ni wers yn sgîl hynny ac anaml iawn y byddem yn gwneud yr un camgymeriad eilwaith.

Ychydig o gyfleoedd sydd i blant a phobl ifanc anabl chwarae'n annibynnol ac mae'n rhaid derbyn ein bod ni i gyd wedi cymryd mwy o risgiau yn ein plentyndod pan nad oedd oedolion o'n cwrmpas. O ganlyniad mae plant a phobl ifanc anabl yn llawer llai tebygol o gael cyfle i brofi'r risgiau emosiynol,

deallusol a chymdeithasol sy'n fodd i blant feistrolï heriau a delio â'u hymateb emosiynol iddynt.

Ydy risg yn fwy o risg i blant anabl?

Fel rhieni, gofawyr a phobl gariadus, mae'n gwbl naturiol ein bod ni am gadw plant yn ddiogel bob amser.

Os ydych chi'n gyfrifol am ofal a lles plentyn anabl, hwyrach fod meddygon a chymdeithas yn gyffredinol, ynghyd â'ch euogrydd personol, wedi dweud wrthyfch fod angen ichi fod yn fwy gofalus; a derbyn cyfrifoldeb am sicrhau bod bywyd y plentyn anabl hwn mor hawdd â phosibl.

'Maldodi' yw'r gair sydd fel arfer yn dod i'r meddwl wrth i ni feddwl am blant anabl yn wynebu risg. Nid risgiau corfforol yn unig ond y cyfleoedd emosiynol, deallusol a chymdeithasol a ddaw yn sgîl: colled, gwrthodiad, llwyddiant a gwneud camgymeriadau. Mae lle i ddadlau mai po fwyaf y bydd oedolion yn maldodi, mwyaf y bydd plant yn gwthio'r ffiniau. P'un a ydyn ni'n hoffi hynny neu beidio, bydd plant anabl a phlant heb anabledd yn chwilio am gyfleoedd i gymryd risg a gwthio ffiniau.

Wrth imi fwrw golwg yn ôl dros fy mhentyndod fy hun, rwy'n gwenu wrthyf fy hun wrth gofio am yr adegau niferus pryd y byddwn yn mynd ati'n fwriadol





i chwilio am bethau peryglus a drwg i'w gwneud. I mi, y peth pwysig oedd y wefr o lwyddo; a gawn i fy nal? Beth byddai'n digwydd petawn i'n cael fy nal?

Mae gennyf atgofion clir ohonof yn aros i'r nyrs nos orffen ei rhawd, yn neidio allan o'r gwely, yn croesi'r ystafell gysgu, ac yn helpu Jenny, fy ffrind gorau, i eistedd yn ei chadair olwyn, ac i ffwrdd â ni yn slei bach i ystafell gysgu y bechgyn i roi cusan nos da yr un iddynt ... yn gyfnewid am sigarêts.

Wrth edrych yn ôl ar hyn a nodi'r gwahanol fathau o risg a gymerais, ydyn nhw'n wahanol o gwbl i'r risgiau mae plant heb anabledd yn eu cymryd? Onid oeddwn i eisiau teimlo gwefr debyg dychryn, cael fy nal, cael pryd o dafod, teimlo'n bwerus, torri'r rheolau? Mae'r teimladau a'r heriau hyn a ddaw i'n rhan drwy chwarae yn angenrheidiol i'n paratoi ni i gyd ar gyfer bywyd.

Y rhwystrau rhag chwarae mentrus

Pan oeddwn yn hwyluso gweithdy ynghylch chwarae a risg yng nghynhadledd ddiwethaf Ysbryd Chwarae Cymru, gwnaeth un o'r cyfranogwyr sylw am un o'r gweithgareddau. Dyma sut aeth y sgwrs.

Cyfranogwr: *Bues i yn un o'ch diwmodau hyfforddi ryw 10 mlynedd yn ôl, pam ydych chi'n dal i wneud yr un ymarferiad ag yr oeddech chi bryd hynny? Daethon ni i'r casgliad bryd hynny â'r casgliad sydd ar y wal nawr?*

Fi: *Mae'n drist fy mod i'n gwneud yr un ymarferion â'r rhai wnes i gyda chi 10 mlynedd yn ôl. Mae'n rhwystredig iawn. Ond fel y gwelwch, does dim wedi newid yn y 10 mlynedd hynny. Rydych chi/rydyn ni yn dal i nodi ac adeiladu'r un wal anablu ag y gwnaethoch chi 10 mlynedd yn ôl. Pam felly?*

Aeth pawb yn fud wrth i annifyrrwch lenwi'r ystafell!

Mae pobl gariadus, ofalgar, gymdeithasol ymwybodol fel ni yn ei chael yn anodd derbyn nad oes fawr ddim wedi newid. Ond roedd y dystiolaeth o flaen ein llygaid. Roedd y wal anablu'n llawn o rwystrau agwedol, amgylcheddol a sefydliadol oedd yn golygu nad oedd cyfleoedd chwarae mentrus ar gael i blant anabl.

Ac yn debyg i'r rhan fwyaf o adegau eraill pryd y cynhaliwyd y dasg hon, nid yr amgylchedd sy'n atal pobl rhag cymryd risg, ond agweddau'r mwyafrif! Gall yr agwedd hon ffosileiddio mewn polisïau a gweithdrefnau, daw ymarfer yn ddi-fudd ac yn sefydliadol. Mae'r gobaith y caiff unrhyw blentyn gyfleoedd chwarae mentrus yn diflannu.

Mae datganiad lefel uchel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, *Chwarae a Hamdden Plant - Hyrwyddo agwedd gytbwys tuag at risg* yn berthnasol i blant anabl a phlant heb anabledd. Fodd bynnag, tra bydd y wal anablu'n bodoli, ni fydd plant anabl byth yn cael cyfleoedd i dyfu drwy chwarae tebyg i'r rhai a gaiff eu cyfoedion heb anabledd.

Mae ar bob plentyn angen ac eisiau cymryd risgiau wrth chwarae i'w galluogi i brofi ffiniau, rhoi cynnig ar brofiadau newydd a datblygu eu sgiliau. Ni fyddai plant byth yn dysgu beicio, nofio, dringo coed neu sglefyrrddio oni bai bod cymhelliad cynhenid ynddynt i ymateb i heriau sy'n cynnwys risg o fethu neu o gael anaf.

Mae ar blant anabl fwy o angen i ddarparu'r chwarae ddarparu cyfleoedd iddynt gymryd risgiau, oherwydd anaml y cânt ddewis neu gyfle i fwynhau'r un amrediad o risgiau ag sydd ar gael i'w cyfoedion heb anabledd.

Risg a budd emosiynol



Pan fyddwn yn meddwl am bwysigrwydd cynnig her ac ansicrwydd i blant yn eu chwarae, byddwn yn aml yn canolbwyntio ar y risgiau corfforol. Mae rhoi amser, lle a chaniatâd i blant gymryd risgiau emosiynol lawn mor bwysig i'w hapusrwydd, eu lles a'u datblygiad.

Mae ar bob plentyn eisiau ac angen mentro'n emosiynol. Fodd bynnag, mae angen inni fod yn ymwybodol bod profiadau pob dydd a chyffredin i rai plant yn gallu cynrychioli risg anferth i eraill. Er enghraifft, efallai y bydd mynd i mewn i ystafell yn llawn o blant eraill neu wlychu eu sanau yn brofiad sy'n llawn straen ac yn ddychryn i rai plant, tra bydd eraill yn hapus i sefyll ar lwyfan o flaen cynulleidfa a chael eu trochi â bwcedaid o ddŵr.

Mae angen inni fod yn sensitif i'r lefel o fentro emosiynol a amlygir gan bob plentyn, ond mae angen inni hefyd gydnabod y gall plant anabl wynebu heriau sydd hyd yn oed yn fwy oherwydd eu

profiadau yn y gorffennol ac oherwydd agweddau a thybiaethau pobl sy'n ddylanwadol yn eu bywydau. Gall mentro emosiynol hefyd fod yn her anferth i blant sy'n isel eu hysbryd neu'n bryderus neu sydd â thueddiadau obsesiynol-gymhellol.

Mae amddiffyn plant rhag niwed yn bwysig – fel oedolion mae gennym ddyletswydd gofal. Gall bod yn oramddiffynnol fod yn niweidiol, ond mae hefyd yn niweidiol methu â sylweddoli pan fydd agweddau ar y chwarae yn achosi straen emosiynol diangen a digroeso i blentyn. Gall straen rwystro plant rhag ymuno yn y math o chwarae maen nhw'n ei ddewis.

Efallai y bydd plant yn gwneud, neu'n dymuno gwneud, pethau a all eu rhoi mewn perygl emosiynol, er enghraifft:

- Arbrofi â gwisgo gwahanol fathau o ddillad, colur a steil gwallt
- Chwarae mewn ffyrdd nad ystyrir eu bod yn nodweddiadol i'w rhyw, er enghraifft, bachgen hŷn yn chwarae gyda dol mewn pram
- Anghytuno'n agored â barn gryfach plant eraill a lleisio barn

Gallwn gefnogi plant drwy ddarparu amgylchedd sy'n eu helpu i deimlo y gallant fentro yn emosiynol. Byddai'r fath amgylchedd yn:

- Un lle mae pob plentyn yn teimlo bod croeso, ei fod yn cael ei dderbyn fel unigolyn ac fel rhan o grŵp, a'i fod yn rhydd i chwarae
- Un sy'n galluogi plant i fynegi eu teimladau, boed hynny'n ymwneud â digwyddiadau a phobl wrth chwarae, neu ag agweddau eraill o'u bywydau
- Un sy'n cefnogi arbrofion pob plentyn â theimladau ac sy'n darparu symbyliad a fydd yn helpu plant i brofi teimladau newydd mewn amgylchedd emosiynol ddiogel
- Un sy'n helpu pob plentyn i fynegi eu hemosiynau mewn ffyrdd na fydd yn eu peryglu hwy nac eraill.

Mae plant o dan bwysau cynyddol yn eu bywydau, gan eu teuluoedd, gan gymdeithas a chan eu cyfoedion. Dyma rai o'r mathau o bwysau y mae plant yn eu hwynebu a all effeithio ar eu lles emosiynol:

- Pwysau gan y cyfryngau – mae dylanwad cryf gan y cyfryngau i blant feddu ar y geriach diweddaraf, neu i gael gwyliau, ceir a dillad. Gall plant deimlo eu bod yn annigonol os nad yw'r pethau hyn ganddynt.
- Pwysau gan gyfoedion i gydymffurfio trwy wisgo'r dillad 'cywir', bod yn berchen ar y gêr cywir a siarad am y pethau iawn, gyda'r pryfocio / bwlio cysylltiedig os na chaiff hyn ei gyflawni. Gall hyn arwain at deimladau o fod yn israddol, o gael eu gwrthod, o gywilydd ac o unigrwydd.
- Pwysau gan y teulu / gan ddiwylliant – gall plant deimlo dan bwysau i gydymffurfio â disgwyliadau teuluol a diwylliannol hyd yn oed pan nad yw'r rhain yn cyd-fynd â disgwyliadau cyffredinol cymdeithas neu gyfoedion. Gall hyn arwain at wrthdaro diwylliannol rhwng cyfoedion a theulu, er enghraifft, gorfod dilyn confensiynau crefyddol penodol sy'n wahanol i eiddo'r rhan helaeth o'r gymuned leol neu'r ysgol.

'Plentyndod yw'r adeg pan ddechreuw'n ddangos pwy ydym, darganfod sut bobl rydym am fod a sut rydym yn ymwneud ag eraill. Ond mae hynny'n dipyn o fenter. I'r rhan fwyaf o blant, mae chwarae rhydd gyda phlant eraill yn gyfle i arbrofi â ffyrdd o feddwl, o gredu ac o wneud pethau. Cyfle i ddod i'r amlwg yn llwyddiannus ac yn sicr ohonynt eu hunain. Heb y cyfle hwnnw, gall plant gydymffurfio'n rhy gynnar â disgwyliadau, neu grwydro'n ddiamcan trwy fywyd, yn ansicr o bwy ydynt mewn gwirionedd. Mae gwrthod gadael i blant chwarae yn gyfystyr â gwrthod cyfle iddynt ddarganfod eu gwir gymeriad.'

**Mike Shooter, Seiciatrydd
Ymgynghorol (wedi ymddeol)
a Chadeirydd Chwarae Cymru**

Mae pwysau cyfoedion yn hynod ddylanwadol – yn aml iawn bydd pwysau gan y plant eu hunain i eraill stopio ymddwyn mewn modd sy'n annerbyniol ganddynt yn llawer mwy llwyddiannus nag ymyrraeth gan oedolion.

Mae plant yn datblygu'n gymdeithasol trwy chwarae. I rai plant bydd y llwybr i lunio cyfeillgarwch yn un caregog. Bydd gan rai plant un ffrind agos a bydd eraill yn denu llawer o ffrindiau atynt ac yn gyffredinol boblogaidd. Bydd rhai plant heb ffrindiau o gwbl. Mae rhai plant yn mwynhau chwarae ar eu pen eu hunain, tra bydd eraill yn hoffi chwarae mewn grwpiau. Bydd rhai plant yn anghytuno'n barhaus gydag eraill.

Bydd plant yn rhoi trefn ar eu patrymau cyfeillgarwch a phwy sydd flaenaf yn eu plith wrth chwarae ac nid ein lle ni yw trefnu cytgorff perffaith. Nid yw chwarae ar eich pen eich hun yn drosedd (mae'n gwbl angenrheidiol i ambell blentyn) ond mae yna adegau pryd y gall ymyriad sensitif gennym helpu plentyn dihyder i gael ei draed tano, i ddod yn fwy pendant ac yn fwy medrus yn gymdeithasol. Efallai y bydd ar rai plant angen cymorth i gyfathrebu a rhyngweithio gydag eraill neu i ddechrau sgwrs (boed hynny ar lafar neu'n 'sgwrs chwarae'). Hwyrach na fydd rhai erioed wedi chwarae o'r blaen a bydd arnynt angen ein cymorth ni i'w cyflwyno i amgylchedd chwaraeus.

Gwnewch i ffwrdd â'r bubble-wrap

Sut y gall oedolion gefnogi angen plant am chwarae'n llawn risg

Mae plant angen ac eisiau creu her ac ansicrwydd fel rhan o'u chwarae. Ydych chi'n cofio neidio oddi ar risiau uwch ac uwch fyth? Gafael yn nwylo ffrind a throï a throï nes ichi gwmpo ar lawr? Dringo coed? Cerdded ar hyd wal uchel? Chwarae ymladd?

Mae'r chwarae yma'n helpu plant i fod yn wydn yn emosiynol yn ogystal ag yn gorfforol, i ymateb mewn modd hyblyg i sefyllfaoedd anodd a newidiol. Felly, yn hytrach na golygu bod ein plant mewn perygl o gael eu niweidio, mae'r math yma o chwarae'n cynyddu eu hyder ac yn datblygu gallu eu hymennydd i ymdopi â'r hyn y bydd bywyd yn ei daflu atynt. Bydd gan y gwytnwch a'r hyblygrwydd yma fuddiannau am oes – mewn gwirionedd, gall eu cadw'n fwy diogel yn y tymor hir.

Gallwn gefnogi ein plant trwy:

- Gwestiynu a mynd i'r afael â'r diwylliant 'gwahardd concyrs' – ydi e'n angenrheidiol mewn gwirionedd?
- Cofio bod damweiniau'n digwydd – mae'n amhosibl sicrhau bod ein plant yn gwbl ddiogel – ac weithiau gall damweiniau ddysgu plant, mewn modd ymarferol, i ofalu am eu hunain.



- Galluogi a chefnogi ein plant i lunio eu barn eu hunain os ydynt yn abl i wneud rhywbeth, neu os ydynt yn ddiogel. Ymddiried yn eu barn, oni bai y gallai'r canlyniadau beryglu eu bywydau.
- Magu agwedd synnwyr cyffredin – gallwn niweidio ein plant trwy fod yn orofalus neu trwy wneud iddynt ofni sefyllfaoedd neu bobl penodol. Mae angen iddynt wybod sut i gadw eu hunain yn ddiogel ond mae angen iddynt hefyd feddu ar yr hyder i dorri eu cwys eu hunain mewn bywyd.
- Meddwl cyn dweud na – bydd plant yn chwilio am bethau sigledig a heriol i'w gwneud oherwydd eu bod angen gwneud hynny. Dylem ddefnyddio ein barn a phwyso a mesur a yw'n hanfodol inni ddweud 'na', neu a ydym yn dweud 'na' o ran arfer.
- Gofyn i'n hunain a yw'r budd i'r plant o chwarae heriol, all fod yn ddychrynllyd ar brydiau (iddyn nhw a ninnau!), yn fwy na'r perygl o niwed.
- Cofio y gall plant fod mewn mwy o berygl yn eu cartref eu hunain – dengys ystadegau damweiniau eu bod yn fwy tebygol o gael eu hanafu yn y cartref na'r tu allan ar y maes chwarae neu yn y coed.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Blwyddyn Antur Cymru

Yn ddiweddar cawsom sgwrs â'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Ken Skates, AC ynghylch ymgyrch Llywodraeth Cymru sef Cymru: Blwyddyn Antur.

Mae chwarae a chael cyfle i chwarae yn rhan mor bwysig o blentynod ac mae gen i atgofion melys iawn am y gêmiau a'r mân-anturiaethau a gefais pan oeddwn yn blentyn. Roedd gennym ni goeden yn y coed y tu ôl i'n cartref a oedd yn rhan ganolog o lawer o'n gêmiau. Cofiaf i mi fynd ati un haf (gyda chymorth fy mhedwar brawd) i greu cuddfan addas i 'Action Man' rhwng gwreiddiau boncyff gwag. Yn ogystal, buon ni'n treulio oriau llawn hwyl yn adeiladu gwifrau gwib ac ogofâu cudd ar gyfer yr anturiaethau lu roedden ni'n dymuno eu cael yn ein bywyd go iawn. A chefais gyfle i brofi llawer o'r anturiaethau hynny fel rhan o Flwyddyn Antur Cymru eleni!

Nod Blwyddyn Antur Cymru 2016 yw adeiladu ar don o ddatblygiadau newydd cyffrous, ac ar y buddsoddiad parhaus ers 10 mlynedd a rhagor, er mwyn gwneud Cymru'n un o gyrchfannau antur pennaf y Deyrnas Unedig.

Mae antur yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl, ac er y bydd rhywfaint o'n gwaith yn canolbwytio ar brofiadau antur pur ar gyfer syrffwyr, beicwyr, canwyr, cerddwyr ac ati; bydd y dathliad mawr yng Nghymru hefyd yn cynnwys ystod eang o anturiaethau sy'n targedu'r Cymry. Bydd elfennau corfforol, naturiol, diwylliannol – a byddwn yn dathlu'r cyfoeth o brofiadau amrywiol y gall Cymru eu cynnig i bobl o bob oed a phob gallu.



Dewiswyd y thema Blwyddyn Antur yn fwriadol er mwyn ategu a rhoi sylw i Ganmlwyddiant Dahl. Roedd Roald Dahl yn gredwr cryf yng ngrym antur i ehangu gorwelion ac i newid bywydau: a dyna yw ein huchelgais ninnau. Ydy, mae antur yn gyffrous, yn wfreiddiol, yn hwyl: ond gall antur drawsnewid hefyd.

Bydd y Penwythnos Antur ar 2-3 Ebrill yn gyfle delfrydol i blant a'u teuluoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau ar garreg eu drws. Bydd cyfle i bobl leol ac ymwelwyr roi cynnig ar rywbeth newydd ar ffurf rhai o'r cyfleoedd cyffrous sydd ar gael yng Nghymru.

Rydym yn ffodus iawn yng Nghymru fod gennym lawer o atyniadau rhagorol sy'n cynnig profiadau i blant am y tro cyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith ceidwad sw, rhoi cynnig ar un o'r gwifrau gwib hiraf neu gyflymaf yn Ewrop, neu fentro o dan ddaear i gael hwyl ar drampolîn, archwilio ogofâu neu gael gweld sut brofiad oedd gweithio o dan ddaear yn y diwydiannau glo a llechi.

Gall antur ddigwydd unrhywle, yn yr ardd gefn, yn ein cymunedau, yn yr amgylchedd naturiol anhygoel sydd gennym yng Nghymru. Mae ein traethau yn fannau delfrydol ar gyfer pob math o anturiaethau gan gynnwys dal eich pysgodyn cyntaf, adeiladu'r castell tywod mwyaf, neu greu celf greadigol ar y traeth. Mae ein coedwigoedd a'n coetiroedd yn fannau delfrydol ar gyfer greu cuddfannau, chwilota am bryfetach neu greu teisennau mwd.

I gael antur syml i'r teulu 'does dim angen mwy na thirwedd odidog Cymru - o fynyddoedd heriol Eryri i fawredd llwybr yr arfordir sy'n ymestyn am 870 o filltiroedd. Mae'r llwybr yn llawn hanesion a straeon a fydd yn tanio'r dychymyg – o gipolwg ar rai o'n cestyll rhyfeddol i weld ogofâu a childraethau a fu'n baradwys i smyglwyr un tro.

Anturiaethau Hapus!
www.croesocymru.com

Astudiaeth: Cyfleoedd chwarae awyr agored yn y DU a'r Almaen

Ellen Weaver, ymchwilydd o Brifysgol Freiburg yn yr Almaen, yn rhannu canfyddiadau astudiaeth a fu'n cymharu mynediad plant i gyfleoedd chwarae awyr agored ac agweddau rhieni at risg wrth chwarae yn y Deyrnas Unedig a'r Almaen.

Canfu ymchwil yn yr Almaen fod plant o deuluoedd difreintiedig yn chwarae allan lawer llai na phlant o deuluoedd cefnog, i'r graddau bod chwarae ar y stryd yn ystod plentyndod bellach yn arwydd o gyfoeth yn hytrach na thlodi.

Bu'r prosiect 'Raum für Kinderspiel', a gynhaliwyd yn nhref Baden Württemberg yn 2013, yn astudio patrymau chwarae mwy na 5000 o blant, a dangosodd fod ansawdd amgylchedd preswyl plant yn cael effaith uniongyrchol ar eu gallu i ymarfer eu hawl i chwarae.

Roedd plant oedd yn byw mewn cymdogaethau sosio-gymdeithasol ddifreintiedig yn cael llawer llai o gyfleoedd i chwarae allan yn annibynnol heb oedolion na phlant o deuluoedd mwy cefnog, oedd yn tueddu i fyw mewn ardaloedd â dyluniad trefol sy'n rhoi mwy o ystyriaeth i blant. Mae'r ymchwilwyr o'r Almaen yn tynnu sylw at bwysigrwydd chwarae heb oruchwyliaeth oedolion fel rhywbeth hanfodol er mwyn i blant ddatblygu ymreolaeth gorfforol a chymdeithasol sylfaenol, felly mae canlyniadau'r anghydraddoldeb o ran cyfleoedd chwarae yn rhai dwys a thymor hir.

Bu arolwg ar raddfa fechan yn 2015 yn cymharu canfyddiadau'r astudiaeth yn yr Almaen â'r cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn y DU, fel y nodwyd gan eu rhieni. Canfu'r arolwg hwn fod ansawdd amgylchedd cartref y plant yn y DU yn rhoi mwy o ystyriaeth i blant nag yn yr

Almaen, o'i fesur yn ôl ffactorau fel agosrwydd i fannau chwarae, cyflymder traffig a nifer y cerbydau.

Serch hynny, dangosodd yr astudiaeth fod plant yn y DU yn treulio llawer llai o amser y tu allan heb oruchwyliaeth o gymharu â'u cyfoedion yn yr Almaen. Er enghraifft, roedd plant pum mlwydd oed yn byw yn yr ardaloedd lle rhoddwyd lleiaf o ystyriaeth i blant yn treulio hyd at bedair gwaith a hanner yn llai o amser yn chwarae allan heb oruchwyliaeth rhieni yn y DU o gymharu â'r plant cyfatebol yn yr Almaen. Roedd plant naw mlwydd oed yn yr ardaloedd lle rhoddwyd lleiaf o ystyriaeth i blant yn chwarae allan heb oruchwyliaeth oedolion am 23 munud y dydd ar gyfartaledd yn y DU, o gymharu â 90 munud y dydd ar gyfartaledd yn yr Almaen.

Gan roi ansawdd yr ardaloedd preswyl fel ffactor o ran faint o chwarae awyr agored oedd ar gael i'r plant o'r neilltu am y tro, gofynnodd yr astudiaeth gwestiwn damcaniaethol hefyd i rieni yn yr Almaen a'r DU er mwyn asesu eu hagweddau at risg a diogelwch mewn chwarae plant. Dangosodd y canlyniadau fod rhieni yn y DU yn llawer llai parod i fentro na'u cymheiriaid yn yr Almaen.

Ymddengys nad yw'r newidiadau o ran agweddau at berygl ac annibyniaeth plant, sydd wedi lleihau rhyddid plant yn y DU yn ystod y degawdau diwethaf, wedi cael yr un effaith yn yr Almaen.

Bwriad yr astudiaeth yn y DU oedd bod yn brosiect rhagarweiniol

i ddangos a fyddai ymchwil gymharol yn berthnasol, ac mae'r canlyniadau'n cyfiawnhau ymchwil bellach i'r rhesymau dros y gwahaniaethau rhwng agweddau ac o ran cyfleoedd chwarae i blant yn y DU ac yn yr Almaen. Nod cam nesaf yr ymchwil yw canfod y rhwystrau presennol sy'n amharu ar annibyniaeth plant yn yr awyr agored ym mhob rhan o'r DU er mwyn hysbysu polisïau a allai oresgyn, neu o leiaf leihau, y rhwystrau hyn.

Mae'r prosiect arfaethedig yn gydweithrediad rhwng Baldo Blinkert, Athro Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Freiburg a David Ball, Athro Rheoli Risg ym Mhrifysgol Middlesex. Mae astudiaeth yn cael ei llunio sy'n cwmpasu pob rhan o'r DU a'r Almaen er mwyn cymharu chwarae awyr agored i blant a meini prawf yr holl oedolion sy'n gwneud penderfyniadau perthnasol yn y maes. Yn benodol, bydd yr ymchwil yn ystyried yr effaith y mae'r gyfraith yn ei chael ar chwarae plant, ac a yw'r systemau cyfreithiol gwahanol yn yr awdurdodaethau dan sylw yn ffactorau perthnasol o ran caniatáu neu gyfyngu ar annibyniaeth plant a chwarae awyr agored.

Gobeithir y bydd cam nesaf yr ymchwil gymharol yn cyfrannu at adennill rhai o'r cyfleoedd hanfodol i blant a gollwyd yn ystod y ddwy genhedlaeth ddiwethaf.

Rhagor o wybodaeth am yr ymchwil: <http://article.sciencepublishinggroup.com/pdf/10.11648.j.hss.20150305.11.pdf>

Cylchoedd sy'n lleihau o hyd

Gill Byrne, Swyddog Gweithredol RAY Ceredigion, yn egluro canlyniadau ei hymchwil i'r newidiadau o ran y pellter y mae plant yn teithio i chwarae yn ystod y tair cenedlaeth ddiwethaf a beth all fod wedi achosi'r newidiadau hyn.

Yn rhan o'r prosiect, cynhaliwyd cyfweiliadau â gwahanol genedlaethau pum teulu yr oedd eu haelodau i gyd wedi tyfu i fyny a chwarae yn yr un lleoliad gwledig yng Ngheredigion. Gwrthyferbynnu profiadau'r gwahanol genedlaethau o chwarae'n annibynnol yn yr awyr agored oedd y nod, a defnyddio'r dystiolaeth hon i asesu a oedd y pellteroedd a deithiwyd i gyrchfannau chwarae dynodedig a heb eu dynodi wedi cynyddu, wedi aros yr un fath, neu wedi lleihau.

Y dull a ddefnyddiwyd oedd cyfarfod â grwpiau teuluol, cynnal cyfweiliad lled-strwythuredig gyda chymorth mapiau arolwg ordnans, gan roi copi yr un o'r map i bob aelod o'r teulu. Yn rhan o'r cyfweiliad, gofynnwyd i bob aelod o'r teulu farcio'r map i nodi ble'r oeddent yn byw a'r pellteroedd yr oeddent yn eu teithio i gyrchfannau chwarae, ynghyd â rhannu eu hatgofion ynghylch arferion chwarae. Roedd defnyddio'r mapiau arolwg ordnans yn fodd i fesur y pellteroedd a deithiwyd yn fanwl-gywir a gwneud cymariaethau ystyrlon rhwng unigolion a'i gilydd.

Cynhaliwyd cyfweiliadau â phum teulu ag amrediad oed o 18 i 84. Cwblhawyd 13 o gyfweiliadau a chafwyd rhagor o wybodaeth ynghylch pedwar person ifanc dan 18 oed. Roedd rheolau'r Brifysgol Agored yn gwahardd cyfweiliadau â phobl dan 18 oed, ond holwyd y rhieni ynghylch arferion chwarae eu plant yn y grŵp dan 18 oed.

Fel y rhagwelwyd, dengys canlyniadau'r cyfweiliadau hyn fod

y pellter y mae plant a phobl ifanc yn teithio i gyrchfannau chwarae wedi lleihau'n ddramatig yn ystod oes y cenedlaethau y cyfweiliwyd â nhw. Gwelwyd yr enghraifft amlycaf o'r gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau mewn cyfweiliadau â thad-cu 63 oed, ei ferch 39 oed, ac arferion chwarae ei dau blentyn hithau a oedd yn saith a deg oed. Mae'r teulu hwn yn dal i fyw yn yr ardal lle magwyd y tad. Mae e'n byw yn yr un stryd ac mae ei ferch a'i wyrion yn byw gyferbyn ag ef.

Yn ystod ei blentynod a'i lencyndod, byddai'n teithio 13.5 milltir, (taith gron o 27 milltir yno ac yn ôl), ar droed ac ar feic. Roedd y teithiau hyn yn cynnwys beicio ar hyd y ffordd er mwyn nofio mewn afonydd, cerdded ar hyd yr arfordir a dringo creigiau er mwyn cyrraedd cildraethau gwag. Mewn cyferbyniad, teithiai ei ferch 0.93 milltir o'r cartref (taith gron o ychydig llai na dwy filltir yno ac yn ôl), i chwarae ar ochr y bryn yng ngolwg y tai, a threuliai ei hamser yn creu cuddfannau ymysg y rhedyn a'r mieri. Cofiai hefyd chwarae ar ddarn o darn rhwng cefnau'r tai, lle byddai'r holl blant o'r ystâd yn ymgasglu i chwarae. Roedd y ddwy genhedlaeth, y tad a'r ferch, yn chwarae gyda'u brodyr a'u chwiorydd weithiau ond yn bennaf byddent yn chwarae gyda phlant cymdogion a oedd yn byw ar yr un ystâd dai. Y canfyddiad mwyaf trawiadol oedd nad yw'r genhedlaeth ifanc, sy'n saith a deg oed, yn cael gadael gardd eu cartref oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn. Felly, o fewn tair cenedlaeth, mae teithio

annibynnol i gyrchfannau chwarae wedi lleihau o 13.5 milltir, i lai na milltir, i ddim.

Cynhaliwyd cyfweiliadau â phum teulu a gwelwyd dirywiad cyflym yn y pellteroedd a deithiwyd gan y cenedlaethau mewn pedwar teulu ac yn y pumed, er nad oedd y gostyngiad mor ddramatig, roedd y pellteroedd wedi haneru.

Dengys yr wybodaeth a gasglwyd yn y cyfweiliadau newid cyfatebol yn y math o chwarae, ochr yn ochr â'r gostyngiad mewn pellteroedd teithio, gyda llai o chwarae 'mentrus' yn digwydd. Roedd y cenedlaethau hyn yn mwynhau siglo ar raff dros y gored, hela crancod ar y traeth a mynd i grwydro'r fryngaer leol, tra bod y genhedlaeth ifanc ond yn cael mynd i'r fryngaer am dro yng nghwmni oedolyn ac yn treulio'u hamser rhydd yn gwneud gweithgareddau wedi'u trefnu.

Gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr beth sydd wedi effeithio ar chwarae plant ers dyddiau eu plentynod nhw. Y canlynol oedd y tri ateb a gododd fwy nag unwaith (heb fod mewn trefn benodol): mwy o draffig ar y ffordd; canfyddiad o berygl dieithriaid; mae menywod yn mynd allan i weithio y dyddiau hyn ond mewn cenedlaethau blaenorol roedd mamau'n tueddu i aros gartref, a olygai fod plant a oedd allan yn chwarae yn gallu galw mewn nifer o gartrefi i gael diodydd a phlasteri. Yn ogystal, roedd hyn yn gymorth i rieni a theuluoedd adnabod ei gilydd - dywedodd y rhai a holwyd nad yw hyn yn wir bellach a bod hynny'n cyfrannu at eu hamharodrwydd i adael i blant chwarae tu allan heb oruchwyliaeth.

Datblygu'r gweithlu

Cymwysterau gofynnol mewn lleoliadau gwaith chwarae

Bydd newidiadau i'r rheoliadau gofal plant, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2016, yn ei gwneud yn ofynnol i leoliadau gwaith chwarae sy'n gweithredu am fwy na dwy awr y dydd ac ar gyfer plant o dan 12 oed gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae 'lleoliadau gwaith chwarae' yn cynnwys: lleoedd chwarae antur, cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau, gofal y tu allan i'r ysgol (yn cynnwys clybiau brecwast, clybiau cinio, clybiau ar ôl ysgol, clybiau gwyliau), canolfannau chwarae mewn ysgolion a chymunedau, prosiectau chwarae teithiol, prosiectau chwarae arbenigol, canolfannau chwarae o dan do a chanolfannau gweithgareddau teulu, a darpariaeth ceidwaid chwarae.

(I gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau i'r rheoliadau gofal plant a darpariaeth chwarae ewch i dudalen 6.)

Os yw'r meini prawf uchod yn berthnasol i chi neu i'ch staff, gall yr wybodaeth ganlynol eich helpu i sicrhau bod gan eich staff y cymwysterau priodol ar gyfer eu swyddi.

Y person cofrestredig a'r person â gofal

Mae'n ofynnol bod y sawl y rhoddwyd ei enw i AGGCC fel person cofrestredig yn meddu ar gymhwyster gwaith chwarae lefel 3 sydd wedi'i gynnwys yn rhestr SkillsActive o'r cymwysterau gofynnol. Oni fydd y person cofrestredig ar y safle bydd angen ichi benodi person â gofal sydd â chymhwyster lefel 3 addas mewn gwaith chwarae. Mae hyn yn cynnwys lefel 3 Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³) a ddatblygwyd gan Chwarae Cymru ynghyd â nifer o gymwysterau addas eraill a gynigir gan gyrrff dyfarnu eraill fel Cache a City & Guilds.

Yn ogystal, bydd angen ichi ystyried trefniadau wrth gefn er mwyn sicrhau bod aelod o staff â chymhwyster lefel 3 addas yn gallu dirprwyo ar ran y person â gofal.

Gweithwyr chwarae

Bydd yn ofynnol fod gan o leiaf hanner y staff sy'n weddill gymhwyster lefel 2 mewn gwaith chwarae sydd wedi'i gynnwys yn rhestr SkillsActive o'r cymwysterau gofynnol. Bwriad hynny yw caniatáu i'r lleoliad chwarae gyflogi gwirfoddolwyr neu weithwyr chwarae heb gymwysterau tra byddant yn cyflawni'r cymwysterau angenrheidiol.

Gwahaniaethau ar gyfer personau sydd â gofal am gynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau

(y trefniadau sydd ar waith tan fis Medi 2018)

Os yw'r lleoliad chwarae ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol yn unig, nid oes angen i'r person cofrestredig/â gofal gwblhau cymhwyster llawn mewn gwaith chwarae os oes ganddo/ganddi gymhwyster arall, lefel 3 neu uwch, mewn gweithio gyda phlant a phobl ifanc (gan gynnwys gwaith ieuencid, addysgu neu ofal plant). Fodd bynnag, bydd angen iddo/iddi gyflawni'r unedau ychwanegol a nodir isod, y gellir eu cyflawni'n gynt ac yn rhatach na'r cymwysterau llawn. Mae'r ddau gymhwyster hyn wedi'u cynnwys yn rhestr SkillsActive o'r cymwysterau gofynnol.

Gwobr Rheoli Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau

Lluniwyd y cymhwyster hwn yn benodol ar gyfer pobl sy'n gweithio fel person cofrestredig/person â gofal cynllun chwarae yn ystod y gwyliau. Achredir y cymhwyster gan Agored Cymru ac fe'i datblygwyd gan Chwarae Cymru a Choleg Cymunedol YMCA Cymru ar y cyd â SkillsActive a Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs. I gael rhagor o wybodaeth trowch i dudalen 21.

Os ydych dros 19 oed ac mae

gennych gymhwyster lefel 3 perthnasol ynghyd â phrofiad o weithio mewn darpariaeth chwarae wedi'i staffio, gallech fod yn gymwys i roi cynnig ar y cymhwyster hwn.

I gofrestru eich diddordeb yn y cyrsiau Rheoli Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau a ddarperir gan ein partner, Coleg Cymunedol YMCA Cymru, cwblhewch y ffurflen gais sydd ar gael yn: www.chwaraecymru.org.uk/cym/mahps

Dyfarniad Pontio o'r Blynyddoedd Cynnar i Waith Chwarae

Lluniwyd y dyfarniad pontio i alluogi'r rheiny sydd â chymwysterau blynyddoedd cynnar lefel 3 i feithrin sgiliau gwaith chwarae a'u galluogi i weithio dros dro mewn lleoliad gwaith chwarae fel cynllun chwarae yn ystod y gwyliau. Mae'r dyfarniad pontio'n cynnwys dwy uned a gellir ei gwblhau mewn llai na 12 mis fel arfer.

Os ydych dros 18 oed ac mae gennych gymhwyster blynyddoedd cynnar perthnasol, gallech fod yn gymwys i roi cynnig ar y dyfarniad hwn. Achredir y dyfarniad gan nifer o gyrrff dyfarnu.

Rhagor o wybodaeth

I gael gwybod am gymwysterau gwaith chwarae yn eich ardal:

- Edrychwch ar wefan Chwarae Cymru i weld manylion y cyrsiau sydd i ddod: www.chwaraecymru.org.uk/cym/digwyddiadau
- Coleg Cymunedol YMCA Cymru sy'n darparu P³ a'r Wobr Rheoli Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau: www.ymca-wales.ac.uk
- Gofynnwch i'ch coleg lleol am y cyrsiau sydd i ddod
- Gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs eich cyngori ynghylch hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae ar gyfer lleoliadau Gofal Plant y tu allan i'r Ysgol: www.clybiauplantcymru.org

Y diweddaraf: Rheoli Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau (MAHPS)

Yn ystod haf 2015 bu Chwarae Cymru'n cydweithio'n agos â'i bartneriaid Coleg Cymunedol YMCA Cymru, SkillsActive a Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs i ddatblygu cymhwyster newydd gan Agored Cymru i ateb y gofynion rheoliadol ar gyfer personau cofrestredig/personau â gofal cynllun chwarae yn ystod y gwyliau.

Yn hanesyddol, bu'n her, yn ariannol ac o ran amser, i'r bobl yn y rolau hyn gyflawni cymhwyster lefel 3 llawn mewn gwaith chwarae a hwythau, yn aml, yn meddu ar gymhwyster lefel 3, ac yn gweithio mewn rolau cysylltiedig eraill gan gynnwys addysgu, gwaith ieuencid, gofal plant neu hyfforddiant chwaraeon. Comisiynodd Llywodraeth Cymru waith i ddatblygu'r cymhwyster newydd hwn er mwyn helpu dysgwyr i gyflawni cymhwyster gwaith chwarae sydd wedi'i anelu'n benodol at gyd-

destun cynllun chwarae yn ystod y gwyliau er mwyn sicrhau bod y math hwn o ddarpariaeth yn gallu parhau i gydymffurfio â gofynion rheoliadol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae Gwobr MAHPS yn cynnwys dwy uned lefel 3 sy'n werth 2 gredyd yr un. Cynhelir llawer o'r tasgau asesu yn yr ystafell ddosbarth, gyda thasg fyfyrto ysgrifenedig ychwanegol ar ddiwedd pob diwrnod. Mae Uned 1 yn ymwneud â chymhwyso Egwyddorion Gwaith Chwarae i gynllun chwarae yn ystod y gwyliau tra bod Uned 2 yn canolbwyntio ar y gofynion deddfwriaethol a rheoliadol sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli cynllun chwarae yn ystod y gwyliau.

Darparwyd dau gwrs peilot a ariannwyd gan Goleg Cymunedol YMCA Cymru (yn Nghaerdydd a

Wrecsam) tridiau yr un gydag wythnos rhwng pob sesiwn er mwyn i'r dysgwyr gwblhau'r tasgau asesu. Dywed Mike Greenaway, Cyfarwyddwr Chwarae Cymru a'r person cofrestredig â gofal yng Nghynllun Chwarae Llandeilo Ferwallt (Bishopston), a ddilynodd y cwrs peilot:

'Roedd y cwrs yn ddifyr ac yn heriol. Roedd yn gyfle i fyfyrto ar ein profiadau amrywiol ein hunain ac eraill; pethau mae rhai ohonon ni wedi bod yn eu gwneud ers blynyddoedd lawer, beth oedd yn dda, a beth gallen ni wella. Roedd y tasgau asesu yn berthnasol i'n gwaith ac yn gofyn ein bod ni'n ystyried ein rolau o ran rheoli ein cynlluniau chwarae ein hunain yn ystod y gwyliau, a sut mae sicrhau bod plant yn cael y cyfleoedd chwarae gorau. Roedd digon i gnoi cil arno.'

www.chwaraecymru.org.uk/cym/mahps

Gweithdy ar gyfer arolygwyr AGGCC

Yn ddiweddar, bu Chwarae Cymru'n gweithio'n agos gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) drwy hwyluso dau weithdy ynghylch darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored ar gyfer eu harolygwyr.

Yn y gorffennol bu arolygu darpariaeth mynediad agored yn heriol o gymharu â darpariaeth gofal plant arall, oherwydd bod yn rhaid i blant gael rhyddid i fynd a dod o'r ddarpariaeth. Effaith y newidiadau i'r rheoliadau gofal plant o fis Ebrill 2016 ymlaen yw y bydd darpariaeth chwarae ar gyfer plant hyd at 12 oed yn cael ei harolygu. Mae AGGCC yn awyddus i weithio gyda Chwarae Cymru a'r sector gwaith chwarae er mwyn sicrhau bod y newidiadau i'r fframwaith arolygu ac i gymarebau staffio yn gymesur ac yn berthnasol i ddarparwyr chwarae mynediad agored.

Roedd mwy na 50 o arolygwyr yn bresennol yn y ddau weithdy, a ddarparwyd yn swyddfeydd AGGCC yng Nghyffordd Llandudno a Phenllergaer. Ar ôl treulio'r bore yn ystyried natur darpariaeth chwarae mynediad agored, pryd y gwylodd yr arolygwyr ein ffilm hyfforddiant *Gwthio Eddie yn y Danadl Poethion* gyda Connor, cafwyd trafodaeth fywiog ynghylch beth yw darpariaeth

chwarae mynediad agored o ansawdd da. Yn ogystal, bu'r arolygwyr yn craffu ar y datganiad newydd ynghylch cymarebau staffio ar gyfer darpariaeth chwarae mynediad agored er mwyn ystyried sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol:

'Dylai cymarebau staffio fod yn ddigonol a chyfatebol, gan gyfrannu at amgylchedd cadarnhaol i'r holl blant sy'n mynychu. Dylai cymarebau staffio adlewyrchu amgylchiadau'r lleoliad, gan gynnwys y safle a lefel y gweithgareddau a wneir, sut caiff risgiau eu rheoli, profiad a chymhwysterau'r staff, y cyd-destun cymunedol, ac oedran a galluoedd y plant sy'n mynychu, a dylent fod yn ddigon uchel i allu ymdrin ag unrhyw argyfwng.'

(Bydd y gymhareb 1:13 ar gyfer plant 5-7 oed yn aros fel y mae)

Mae Chwarae Cymru'n croesawu'r hyblygrwydd y mae hyn yn ei gynnig oherwydd y mae'n caniatáu i ddarparwyr benderfynu ynghylch

cymarebau staffio ar sail cyd-destun eu darpariaeth, gyda chymorth rheoli risg pragmataidd.

Cafwyd adborth cadarnhaol o'r gweithdai ac mae hwn yn gam arall tuag at arolygu cymesur ar gyfer darparwyr chwarae mynediad agored.

Dywedodd Donna Davies, Ymgynghorydd Polisi y Prif Arolygydd:

'Bu'r gweithdai'n hynod ddefnyddiol o ran datblygu dealltwriaeth a sgiliau'r arolygwyr mewn perthynas â'r amrediad amrywiol o chwarae mynediad agored i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ... Mewn cydweithrediad â Chwarae Cymru, rydym yn gwneud newidiadau i'n fframwaith arolygu er mwyn sicrhau ei fod yn gymesur ac yn berthnasol i chwarae mynediad agored.'

Buom hefyd yn hwyluso grwpiau ffocws gyda darparwyr chwarae mynediad agored ym mis Chwefror 2016 a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos ag AGGCC a Llywodraeth Cymru yn ystod y misoedd nesaf ynghylch newidiadau i reoleiddio ac arolygu darpariaeth chwarae mynediad agored.

Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Digonolrwydd Chwarae Wrecsam



Bu Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gweithio gyda Stuart Lester o Brifysgol Swydd Gaerloyw i hwyluso rhaglen datblygiad proffesiynol gyda'r nod o helpu'r rheiny sy'n ymwneud â'r broses digonolrwydd chwarae, trwy ddarparu mynediad iddynt i syniadau a chysyniadau heriol ac ysbrydoledig, o dan arweiniad un o'r meddylwyr blaenllaw ym maes chwarae plant yn y Deyrnas Unedig.

Bu'r broses yn gymorth i gasglu data er gwybodaeth ar gyfer cwblhau'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2016 a datblygu ymhellach bartneriaethau lleol a fydd, yn eu tro, yn gwella gallu'r awdurdod lleol i sicrhau cyfleoedd digonol ar gyfer chwarae plant.

Bu'r gyfres hon o weithdai'n ymchwilio i rolau oedolion (a phlant) o ran creu amodau mwy ffafriol i gefnogi plant wrth iddynt chwilio am amser a lle i chwarae, ac fe'u seiliwyd ar y themâu allweddol a ddatblygwyd yn y rhaglen MA Astudiaethau Proffesiynol mewn Chwarae Plant ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw. Yn ogystal, tynnai'r gweithdai ar syniadau ac egwyddorion a nodwyd mewn dwy astudiaeth ymchwil ynghylch gweithredu Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae Llywodraeth Cymru (Lester a Russell, 2013, 2014).

Wrth gynllunio'r gweithdai hyn, roedd yn bwysig nodi y bwriedid iddynt ymateb i amodau lleol; fel y dywed Lester a Russell (2013) mae pob awdurdod lleol yn cefnogi chwarae plant o fewn cyd-destun penodol sy'n cynnwys ffactorau cymhleth ac unigryw - ffactorau fel hanes, perthnasoedd, adnoddau, blaenoriaethau, economeg, gwleidyddiaeth leol. Felly, cydnabuwyd bod rhaid dylunio'r rhaglen ar sail yr amodau hyn

- trafodwyd y gweithdai ymlaen llaw a chawsant eu hadolygu'n barhaus yn ystod y cyfnod darparu.

Roedd y rhaglen yn gyfranogol ac yn ddatblygol yn hytrach na sesiynau 'addysgu' yn unig. Hefyd, disgwyliod y byddai gweithredu'n rhan o'r broses h.y. y byddai'r cyfranogwyr yn cymhwyso syniadau, egwyddorion a methodolegau yn eu hymarfer ac yn rhannu eu canfyddiadau er mwyn datblygu 'doethineb ar y cyd' i gefnogi'r gwaith o asesu a sicrhau bod cyfleoedd chwarae digonol ar gael. Bu 28 o weithwyr proffesiynol o 22 o wahanol adrannau awdurdod lleol ac asiantaethau partner yn cymryd rhan yn y rhaglen, a nododd llawer ohonynt iddynt gael budd o gymryd rhan:

'Mae'r dull gweithredu hwn wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran dwyn ynghyd amrywiol weithwyr proffesiynol y mae eu swyddi'n cael effaith ar chwarae plant mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae'r sesiynau hyn, yn eu tro, wedi caniatáu i bobl fyfyrion ynghylch sut mae chwarae plant yn cael effaith ar rôl eu swyddi nhw ac eraill a sylweddoli bod cydweithio yn sicr o ddarparu gwell canlyniadau i bawb!'

Sue Astle, Mentor ac Aseswr Hyfforddiant

Lester, S. a Russell, W. (2013) *Welingtons Croen Llewparad, Het Silc a Phiben Sugrwr Lluch: Dadansoddiad o ddyletswydd Asesiad Digonolrwydd Chwarae, Cymru.*

Prifysgol Swydd Gaerloyw a Chwarae Cymru.

Lester, S. a Russell, W. (2014) *Towards Securing Sufficient Play Opportunities.* Prifysgol Swydd Gaerloyw a Chwarae Cymru.

Adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Yn y rhifyn diwethaf o *Chwarae Dros Gymru*, rhoesom adroddiad ar gynnydd yr adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer gwaith chwarae sydd ar waith gan SkillsActive.



Yn dilyn y grwpiau ffocws cenedlaethol a gynhaliwyd yn y pedair gwlad yn ystod Awst a Medi 2015, mynegwyd pryder gan lawer na chyfeiriwyd yn llawn at yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi, ar ôl ymgysylltu â'r sector, y Grŵp Craffu ar Egwyddorion Gwaith

Chwarae a'r pedwar corff chwarae cenedlaethol, fod yr Egwyddorion Gwaith Chwarae bellach wedi'u hintegreiddio'n llawn i'r Safonau ar ffurf gwybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer pob safon, gyda datganiad cyffredinol ynghylch yr Egwyddorion ar ddechrau'r Safonau.

Mae'r safonau'n cael eu cwblhau

ar hyn o bryd ac mae'r broses o gytuno ar yr iaith a'r derminoleg yn mynd rhagddi. Nod SkillsActive yw cwblhau'r adolygiad erbyn gwanwyn 2016 ac rydym yn dal yn hyderus y byddant yn ymateb i anghenion y sector ac yn adlewyrchiad tecach o'r ymarfer gwaith chwarae presennol yng Nghymru.